Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

Mawrth 2026



# Statws Partneriaethau Bwyd Lleol yn 2026


Gan Pearl Costello
Synnwyr Bwyd Cymru



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales



# Statws Partneriaethau Bwyd Lleol yng Nghymru: Mawrth 2026

**Gan Pearl Costello**
**Synnwyr Bwyd Cymru**

**Cyfranwyr at yr Adroddiad:**
Pearl Costello, Siân-Elin Davies, Katie Palmer, Will Barker, Matthew Horwood, Dafydd Owen. Dyluniwyd yr adroddiad gan Rebecca Ingleby Davies.

## Synnwyr Bwyd Cymru

Nod Synnwyr Bwyd Cymru yw dylanwadu ac effeithio ar sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a'i fwyta yng Nghymru er mwyn sicrhau bod bwyd, ffermio a physgodfeydd cynaliadwy wrth wraidd system fwyd deg, gysylltiedig a llewyrchus.

Sefydlwyd Synnwyr Bwyd Cymru yn 2018 i hyrwyddo dull traws-sector o ymdrin â'r system fwyd yng Nghymru.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn gweithio gyda chymunedau, sefydliadau, llunwyr polisïau a'r Llywodraeth ar draws Cymru gyfan i greu system bwyd a ffermio sydd o les i bobl ac i'r blaned.

Darllenwch fwy am Synnwyr Bwyd Cymru yma.

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Cynnwys


Rhagair 4

**Cipolwg ar Bartneriaethau Bwyd Lleol 6**

Rôl Synnwyr Bwyd Cymru 10

Cynlluniau ariannu Partneriaethau Bwyd Lleol 13

**ASTUDIAETHAU ACHOS:**

- **Partneriaeth Bwyd RhCT: Cysylltu cymunedau trwy fwyd da** 14
- **Cysylltu'r dotiau: Sut mae Partneriaeth Bwyd Sir Benfro yn adeiladu system fwyd leol ffyniannus** 18
- **COGOG: Cefnogi a chryfhau gweithredu bwyd cymunedol ar draws Sir Ddinbych** 22
- **Adeiladu gwydnwch bwyd sifil ledled Dyfed-Powys** 26
- **Tyfu'r sector garddwriaeth yng Ngogledd Cymru trwy gydweithio** 32

Atodiad 38






# Rhagair



**Pearl Costello**
Rheolwr Lleoedd Bwyd Cynaliadwy
Synnwyr Bwyd Cymru



Mae wedi bod yn flwyddyn arwyddocaol i bolisi bwyd yng Nghymru. Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Synnwyr Bwyd Cymru yr adroddiad Statws Partneriaethau Bwyd Lleol cyntaf, yr un adeg ag Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a Strategaeth Bwyd Cymunedol Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd y dogfennau hyn y gwaith paratoadol er mwyn ysgogi a galluogi tyfu'r mudiad bwyd da yng Nghymru gan ddatblygu llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol Cymru drwy fwyd. Ar y 1af o Ionawr 2026 dechreuodd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i gynorthwyo ffermwyr i gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel ac o safon fyd-eang wrth ofalu am yr amgylchedd, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo a meithrin gwydnwch yr un pryd.

Ochr yn ochr â datblygiadau polisi, mae'r mudiad llawr gwlad ar gyfer systemau bwyd iach a chynaliadwy, sydd wedi bod yn datblygu dros ddegawd, yn aeddfedu i fod yn seilwaith cenedlaethol angenrheidiol. Mae Partneriaethau Bwyd Lleol wedi cael eu hariannu gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ers 2022, gan gydnabod bod partneriaethau bwyd traws-sector yn gallu helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn lliniaru achosion sylfaenol tlodi ac yn helpu i feithrin gwydnwch bwyd cymunedol. Bellach, mae gennym 22 Partneriaeth Bwyd Lleol, un ym mhob ardal awdurdod lleol, a phob un â chydlynydd penodedig yn arddangos arweinyddiaeth strategol. Gyda'r sylfeini hyn yn eu lle, mae camau gweithredu cydlynol ar fwyd yn digwydd ar gyflymder.

Roedd adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn eirioli dros gyfres o gamau gweithredu yn gysylltiedig â bwyd, gan gynnwys datblygu Cynllun Gwydnwch Bwyd Cenedlaethol; parhau i gefnogi Partneriaethau Bwyd yn ogystal â darparu cymorth pellach i arddwriaeth, cynlluniau talebau ffrwythau a llysiau a Llythrennedd Bwyd. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, aeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Synnwyr

Bwyd Cymru ati i gyd-gynhyrchu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru ar sut y gallant weithio gyda Phartneriaethau Bwyd Lleol i wella systemau bwyd lleol. Ers cyhoeddi'r ddogfen hon, mae 15 o blith y 22 o gynghorau yng Nghymru wedi ymateb i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gan ddweud eu bod yn derbyn y dylent lunio cynllun gwydnwch bwyd. O blith y rhain, mae pedwar wedi gwneud cais am gymorth gan Swyddfa'r Comisiynydd a Synnwyr Bwyd Cymru i ddechrau eu cynlluniau.

Ymrwymodd y Strategaeth Tlodi Plant Cymru a'r Strategaeth Bwyd Cymunedol £2 filiwn o gyllid ar gyfer Partneriaethau Bwyd Lleol yn 2025-26, gan gynnwys ymrwymiad aml-flwyddyn i ariannu cydlynwyr ledled Cymru o'r portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol. Mae'r gefnogaeth yma'n galluogi Partneriaethau Bwyd Lleol i ehangu eu capasiti a darparu ystod o brosiectau bwyd wedi'u teilwra sy'n ymateb yn uniongyrchol i anghenion eu cymunedau. Fel rhan o hyn, mae'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, wedi cydweithio i ddatblygu cyfres ar y cyd o amcanion a dangosyddion sy'n uno dyheadau'r ddau bortffolio, gan gynnwys creu gwydnwch bwyd cymunedol a mynd i'r afael â thlodi bwyd, a chynyddu'r cyflenwad o fwyd lleol ac amrywiaeth y bwyd hwnnw.

Rhoddwyd sylw i gydweithio yng Nghynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru yn 2025. Mewn cydweithrediad â Synnwyr Bwyd Cymru, fe wnaeth y digwyddiad gyfuno dau gynulliad blynyddol allweddol; Cynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru a'r digwyddiad Bwyd mewn Cymunedau. Cafodd y bartneriaeth hon ei hadlewyrchu yn thema 2025: ***Cymunedau, Bwyd a Ffermio yn Cydweithio***. Gyda bron i 400 o fynychwyr, 30 o sesiynau a 100 o siaradwyr dros ddau ddiwrnod, bu'r Gynhadledd yn trafod bwyd a ffermio cynaliadwy, gan ddod â ffermwyr a busnesau bwyd eraill, amgylcheddwyr yn ogystal â phobl sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, addysg bwyd, sofraniaeth bwyd a chyfiawnder cymdeithasol ynghyd. Hefyd, cynhaliwyd Gwobrau Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Cymru i gydnabod y saith lle a oedd wedi ennill Gwobrau Efydd ac Arian yn ogystal â dau aelod newydd.

Yn ystod 2025-26, mae'r Partneriaethau Bwyd Lleol wedi bod yn gweithio'n galed ar lawr gwlad, yn eu cymunedau, i geisio sicrhau bod bwyd da ar gael i bawb, am byth. Cyfeiriwyd yn gyson at y weledigaeth hon i sicrhau '*bwyd da i bawb, am byth*' yn ystod y gweithdy deuddydd dwys ar arweinyddiaeth i gydlynwyr Partneriaethau Bwyd Lleol a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2026, ochr yn ochr â'r cysyniad o '*wydnwch blasus*'. Dangosodd y gweithdy hwn y mudiad unigryw sy'n bodoli yng Nghymru a phwysigrwydd adeiladu ar y momentwm hwn yn y blynyddoedd i ddod. Rydym yn gyffrous i weld beth ddaw yn 2026 – 2027.

**Pearl Costello**

Rheolwr Lleoedd Bwyd Cynaliadwy
Synnwyr Bwyd Cymru

# Cipolwg ar Bartneriaethau Bwyd Lleol

| | | |
|---|---|---|
| **22** o Bartneriaethau Bwyd Lleol | **Mae 66%** o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardal lle ceir Partneriaeth Bwyd Lleol sy'n aelod o raglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy (cynnydd o gymharu â 55% yn 2025) | **Mae pob un o'r 7** Bwrdd Iechyd yn cael eu cynrychioli ar grwpiau llwyio'r rhan fwyaf o'r Partneriaethau Bwyd Lleol |
| **Mae gan bob un o'r 22** o Bartniaethau Bwyd Lleol gydlynydd penodedig (cynnydd o gymharu â 10 yn 2025) | **10** Deiliad Gwobr Lleoedd Bwyd Cynaliadwy | **13** Aelod o Lleoedd Bwyd Cynaliadwy |

Ceir 22 o bartneriaethau bwyd lleol yng Nghymru, un ym mhob ardal awdurdod lleol, sy'n hyrwyddo arloesedd ac arfer gorau mewn systemau bwyd iach a chynaliadwy.

Mae Partneriaethau Bwyd Lleol yn dod â phartneriaid o amrywiaeth o sectorau gwahanol ynghyd i helpu i fynd i'r afael â materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan gydweithio i sicrhau bwyd da i bawb, am byth. Mae'r partneriaethau'n cynnwys cyrff cyhoeddus fel Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn ogystal â dinasyddion, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, busnesau bwyd, manwerthwyr, cyfanwerthwyr, tyfwyr a ffermwyr.

Mae gweledigaeth a gwaith pob Partneriaeth Bwyd Lleol wedi'u teilwra i'w hardal leol ac yn ymateb i'w hanghenion penodol. Ond gyda'i gilydd, mae'r Partneriaethau Bwyd Lleol yn fudiad cymdeithasol ar draws Cymru gyfan, sy'n gweithio i greu system fwyd sydd â **gwydnwch blasus** - sy'n cyfuno'r llawenydd, y pleser a'r hwyl sy'n gysylltiedig â bwyd gyda diogeledd bwyd a thegwch bwyd.



**Blasus** *ansoddair*
Ac arno flas dymunol a phenodol (am fwyd, diod, &c.), llawn blas, danteithiol, melys; iachus, dymunol, hyfryd; persain; ysbrydol hyfryd neu ddyrchafol

**Gwydnwch** *enw*
Gwydnedd, hyblygedd neu ystwythder heb freuder, yr ansawdd o fod yn anodd ei dorri, ei rwygo neu ei dreulio; caledwch (cyfansoddiad), gallu i ddal straen, gwrthwynebu afiechyd ac ergydion ffawd, &c.; cyndynrwydd, ystyfnigrwydd, penderfyniad neu ddyfalbarhad di-ildio; hwyrfrydigrwydd i ddarfod (e.e. am hen draddodiad), parhauster; chwanogrwydd i ddal gafael ar (arian):


# Cipolwg ar Bartneriaethau Bwyd Lleol: Mawrth 2026


Cliciwch yma i gael mynediad at fap rhyngweithiol o'r Partneriaethau Bwyd

AELOD | EFYDD | ARIAN | AUR | DDIM YN AELOD

## ARDAL / STATWS AELODAETH

1. Ynys Môn
2. Blaenau Gwent
3. Pen-y-bont ar Ogwr
4. Caerffili
5. Caerdydd
6. Sir Gaerfyrddin
7. Ceredigion
8. Conwy
9. Sir Ddinbych
10. Sir y Fflint
11. Gwynedd
12. Merthyr Tudful
13. Sir Fynwy
14. Castell-nedd Port Talbot
15. Casnewydd
16. Sir Benfro
17. Powys
18. Rhondda Cynon Taf
19. Abertawe
20. Torfaen
21. Bro Morgannwg
22. Wrecsam



## SEFYDLIAD LLETYA

| | |
|---|---|
| 11 | Sector Cyhoeddus, Cyngor |
| 2 | Sector Cyhoeddus, Iechyd |
| 8 | 3ydd Sector/Menter Gymdeithasol |
| 1 | Cymdeithas Tai |

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Cipolwg ar Bartneriaethau Bwyd Lleol

## Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

Dechreuwyd Partneriaethau Bwyd Lleol gan Lleoedd Bwyd Cynaliadwy; rhaglen bartneriaeth sy'n cael ei harwain gan Gymdeithas y Pridd, Food Matters, Sustain: y gynghrair dros fwyd a ffermio gwell, Synnwyr Bwyd Cymru, a Nourish Scotland. Er mwyn dod yn aelod o Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, mae angen i bartneriaethau bwyd lleol ddangos bod ganddynt bartneriaeth fwyd traws-sector sy'n datblygu ac yn cyflawni cynllun neu strategaeth bwyd lleol ar y cyd. Nid yw'n ofyniad i Bartneriaeth Bwyd Lleol ddilyn fframwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy na dod yn aelod, ond mae llawer o leoedd yn gwerthfawrogi bod yn rhan o'r rhwydwaith llwyddiannus hwn sy'n gweithredu ar draws y DU.


### FFRAMWAITH LLEOEDD BWYD CYNALIADWY




1. **Trefniadau Llywodraethu Bwyd a Strategaeth Fwyd:**
   Mabwysiadu dull strategol a chydweithredol tuag at drefniadau llywodraethu a chamau gweithredu mewn perthynas â bwyd da



2. **Y Mudiad Bwyd Da:**
   Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, dinasyddiaeth bwyd weithredol a mudiad bwyd da lleol.




3. **Bwyd Iach i Bawb:**
   Trechu tlodi bwyd, salwch sy'n gysylltiedig â deiet a sicrhau mynediad at fwyd iach fforddiadwy



4. **Economi Bwyd Cynaliadwy:**
   Creu economi bwyd cynaliadwy sy'n fywiog, yn ffyniannus ac yn amrywiol



5. **Arlwyo a chaffael:**
   Trawsnewid arlwyo a chaffael ac adfywio cadwyni cyflenwi lleol.



6. **Bwyd ar gyfer y Blaned:**
   Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur drwy fwyd a ffermio cynaliadwy a rhoi diwedd ar wastraff bwyd.

Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Cipolwg ar Bartneriaethau Bwyd Lleol

Gall aelodau Lleoedd Bwyd Cynaliadwy hefyd wneud cais am Wobrau Efydd, Arian ac Aur. Mae Cymru yn falch o gael partneriaethau bwyd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy sydd wedi ennill gwobrau Efydd, Arian ac Aur – sy'n dyst i'r gwaith caled a'r cydweithio sy'n digwydd ledled y wlad.

Dyfarnwyd Aelodaeth neu Wobrau i naw o'r lleoedd canlynol (a ddynodir â *) yn 2025, a dathlwyd eu cyflawniadau yng Ngwobrau Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn ystod Cynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru 2025.

**Caerdydd**
Aur

**Sir Gaerfyrddin** *
Arian

**Rhondda Cynon Taf** *
Arian

**Bro Morgannwg** *
Arian

**Torfaen**
Arian

**Blaenau Gwent** *
Efydd

**Pen-y-bont ar Ogwr** *
Efydd

**Sir Benfro** *
Efydd

**Powys** *
Efydd

**Abertawe**
Efydd

**Ceredigion** *
Aelod

**Castell-nedd Port Talbot** *
Aelod

**Sir Fynwy**
Aelod

**Gallwch ddarllen mwy am Wobrau 2025 yma**

# Rôl Synnwyr Bwyd Cymru

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn ymrwymedig i greu systemau bwyd lleol cadarn a rhyng-gysylltiedig sy'n gwella ffyniant economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ledled Cymru. Rydym yn hyrwyddo cydweithrediad a chynhwysiant, gyda Phartneriaethau Bwyd Lleol ar flaen y gad, yn ysgogi trawsnewidiad sylweddol a chadarnhaol mewn cymunedau o Fôn i Fynwy.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn un o bartneriaid y rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i gefnogi datblygiad partneriaethau bwyd yng Nghymru. Rydym yn cefnogi ac yn annog y partneriaethau bwyd; yn dod â nhw at ei gilydd, yn darparu arweinyddiaeth a chyfleoedd i gydweithio.

## Mae gweithgareddau Synnwyr Bwyd Cymru i gefnogi Partneriaethau Bwyd Lleol yn 2025-26 wedi cynnwys:

1. **Parhau i ddatblygu Cymuned Ymarfer i gydlynwyr Partneriaethau Bwyd Lleol. Cyfarfod misol ar-lein yw hwn er mwyn i gydlynwyr Partneriaethau Bwyd Lleol ddod ynghyd, rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu, datrys problemau a chydweithio.**

*"Y gymuned ymarfer y mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi'i datblygu gyda Chydlynwyr Partneriaethau Bwyd ledled Cymru yw un o'r grwpiau cymorth i gymheiriaid mwyaf ysbrydoledig ac anogol yr wyf wedi'i weld erioed yn ystod fy mlynyddoedd lawer o waith cymunedol. Mae'n ein galluogi i rannu arfer gorau a goresgyn heriau ar lawr gwlad yn ein hardaloedd ein hunain, gan barhau i ddarparu gwybodaeth i lywio gwaith rhanbarthol a pholisïau cenedlaethol. Mae'n grŵp eithriadol o bobl, ac mae'n darparu gobaith mawr mewn cyfnod anodd." Cydlynydd Partneriaeth Bwyd Lleol*

2. **Darparu cymorth uniongyrchol i Bartneriaethau Bwyd Lleol, gan gynnwys mynychu Uwchgynadleddau Bwyd, hwyluso gweithdai grwpiau llywio a chynnig gwasanaeth mentora.**

*"Mae arweiniad a chefnogaeth Synnwyr Bwyd Cymru wedi bod yn hanfodol ar adegau pan oeddwn i'n poeni nad oedd ein partneriaeth yn gwneud cynnydd mor gyflym ag y dylai, ac mae wedi fy helpu i gadw ffocws a bod yn hyderus a chysylltiedig."*
*Cydlynydd Partneriaeth Bwyd Lleol*

3. **Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gydgynhyrchu a darparu £2 filiwn o gyllid i Bartneriaethau Bwyd Lleol yn 2025-26 fel rhan o Strategaeth Tlodi Plant Cymru a'r Strategaeth Bwyd Cymunedol. Mae'r cyllid yn galluogi'r partneriaethau i ddatblygu seilwaith, creu cyfleoedd cyflenwi lleol newydd a chefnogi tyfwyr sy'n newydd i'r maes garddwriaeth (Gweler Atodiad 1 am restr lawn o grantiau).**

*"Mae'r cyllid yn caniatáu buddsoddi ac ymateb lleol wedi'i dargedu sy'n unigol i bob ardal leol, ac rwy'n credu'n gryf y byddai Cymru mewn sefyllfa lawer gwaeth yn y sector bwyd oni bai am ymyrraeth Synnwyr Bwyd Cymru, Llywodraeth Cymru a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill yn cydweithio." Cydlynydd Partneriaeth Bwyd Lleol*

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

4. Cydgynhyrchu canllawiau gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i awdurdodau lleol ar sut y gallant weithio gyda Phartneriaethau Bwyd Lleol i wella systemau bwyd lleol.

*"Mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi cyd-drafod â phartneriaid cenedlaethol allweddol fel Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol i bwysleisio bod bwyd yn her allweddol i ni yng Nghymru ac i ddatblygu canllawiau i helpu awdurdodau lleol i nodi cyfleoedd allweddol, i ddylanwadu ar eu systemau bwyd lleol."* *Cydlynydd Partneriaeth Bwyd Lleol*

5. Cysylltu Partneriaethau Bwyd Lleol â rhaglenni gwaith eraill, fel y cynllun Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion a datblygiadau polisi cenedlaethol.

*"Drwy gynlluniau fel Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion, mae Synnwyr Bwyd Cymru hefyd wedi dechrau cyflwyno'r seilwaith a'r prosesau gweithredol angenrheidiol i gefnogi mwy o gadwyni cyflenwi ac i sicrhau bod cynnyrch lleol yn cael ei gynnwys mewn prydau ysgol."* *Cydlynydd Partneriaeth Bwyd Lleol*

6. Hyrwyddo gwaith Partneriaethau Bwyd Lleol, er enghraifft drwy gydweithio â Chynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru ar y thema Cymunedau, Bwyd a Ffermio yn Cydweithio.

*"Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn arwain ac yn hyrwyddo'n strategol y newid cynaliadwy i systemau bwyd yng Nghymru sydd, yn ei dro, yn galluogi effeithiau gwirioneddol ar lefel leol drwy'r Partneriaethau Bwyd Lleol priodol"* *Cydlynydd Partneriaeth Bwyd Lleol*

7. Parhau i feithrin cymorth gan gymheiriaid ymhlith y Partneriaethau Bwyd Lleol a dechrau'r broses o gyd-greu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Partneriaethau Bwyd Lleol fel mudiad cymdeithasol.

*"Synnwyr Bwyd Cymru yw'r cyswllt canolog a hanfodol rhwng yr holl Bartneriaethau Bwyd Lleol yng Nghymru. Mae Synnwyr Bwyd Cymru a'r rhaglenni gwaith cysylltiedig yn galluogi effeithiau rhanbarthol a chenedlaethol, a'r Partneriaethau Bwyd Lleol cyfunol i gymryd camau pendant tuag at wireddu'r potensial mawr y mae bwyd cynaliadwy yn ei gynnig i bobl Cymru; drwy ganlyniadau cadarnhaol o ran iechyd, economi leol, a gwydnwch amgylcheddol."* *Cydlynydd Partneriaeth Bwyd Lleol*








## Dod â Phartneriaethau Bwyd Lleol Cymru ynghyd

Ym mis Chwefror 2026, daeth Synnwyr Bwyd Cymru â chydlynwyr Partneriaethau Bwyd Lleol Cymru at ei gilydd ar gyfer gweithdy preswyl ger Aberaeron. Amcanion y gweithdy oedd myfyrio ar daith gymunedol Partneriaethau Bwyd Lleol Cymru hyd yn hyn; dechrau adeiladu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer dyfodol mudiad Partneriaethau Bwyd Lleol yng Nghymru; a rhoi cyfle i'r cydlynwyr a staff Synnwyr Bwyd Cymru ddysgu a chyfnewid gwybodaaeth rhwng cyfoedion i gefnogi lles meddyliol a gwaith system fwyd.

Roedd cynrychiolwyr o ugain o'r ddau ar hugain o Bartneriaethau Bwyd Lleol yn bresennol (roedd pawb eisiau mynychu), ac yn ystod y gweithdy preswyl, cymerodd y cydlynwyr ran mewn gweithgareddau a archwiliodd ymwybyddiaeth ofalgar; creadigrwydd; arweinyddiaeth a mudiadau cymdeithasol; myfyrio; nodi meysydd ar gyfer gweithio cydweithredol; treftadaeth fwyd; iaith a diwylliant.

Ar ddiwedd y gweithdy, cytunodd yr holl Bartneriaethau Bwyd Lleol y byddent yn hoffi gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth o "Gwydnwch blasus: Bwyd da i bawb, am byth". Gyda'i gilydd, fe wnaeth y cyfranogwyr gyd-greu model arfaethedig ar gyfer trefnu mudiad Partneriaethau Bwyd Lleol yng Nghymru, ac ymrwymodd y cydlynwyr i lunio a chryfhau'r model hwn dros y misoedd nesaf.

Myfyriodd pob cydlynydd partneriaeth bwyd ar ba mor werthfawr oedd y gweithdy gan gefnogi'r syniad o weithdy blynyddol/bob dwy flynedd.

*"Roeddwn i wir yn gwerthfawrogi'r lle a'r amser a ddarparwyd i fod yno. Mwynheais y cyfle i godi fy mhen o fy llwyth gwaith ac archwilio rhai meddyliau, pynciau a thrafodaethau ar fy hoff bwnc. Roedd y cyfan yn llawn empathi ac roeddwn i'n teimlo fy mod i'n cael fy ngwerthfawrogi."* *Cydlynydd Partneriaeth Bwyd Lleol*

*"Fe wnaeth clywed gan gydlynwyr eraill fy helpu i deimlo'n rhan o fudiad gweithredu mwy gan fy ysbrydoli gyda syniadau i helpu i fynd i'r afael â materion anodd o fewn ein partneriaeth."* *Cydlynydd Partneriaeth Bwyd Lleol*

*"Mae gallu cwrdd a rhannu syniadau gyda phobl sydd â gweledigaethau swydd a gwerthoedd sy'n cael eu rhannu yn amhrisiadwy."* *Cydlynydd Partneriaeth Bwyd Lleol*

# Cynlluniau Cyllido Partneriaethau Bwyd Lleol

**Yn 2025/26 derbyniodd y 22 o Bartneriaethau Bwyd Lleol yng Nghymru gyllid drwy [Strategaeth Bwyd Cymunedol] a [Strategaeth Tlodi Plant] Llywodraeth Cymru, i'w galluogi i ehangu eu capasiti a chyflawni ystod o brosiectau bwyd wedi'u teilwra sy'n ymateb yn uniongyrchol i anghenion eu cymunedau.**

Ers mis Mehefin 2022, mae Llywodraeth Cymru - yn benodol, gyda chefnogaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol - wedi ymrwymo i ariannu partneriaethau bwyd traws-sector yng Nghymru fel rhan o gyfres o becynnau ymyrraeth fynd i'r afael â thlodi. Eleni, fe wnaeth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, gydweithio i gefnogi'r Partneriaethau Bwyd Lleol. Datblygodd y gweinidogaethau a'u timau priodol gyfres o amcanion a dangosyddion ar y cyd oedd yn dwyn ynghyd uchelgeisiau'r ddau bortffolio, gan gynnwys creu gwydnwch bwyd cymunedol a mynd i'r afael â thlodi bwyd, a chynyddu cyflenwad ac amrywiaeth bwyd lleol.

Atgyfnerthodd hyn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi'r 22 o Bartneriaethau Bwyd Lleol tan fis Mawrth 2028, gan helpu i gryfhau'r rhwydweithiau lleol a hyrwyddo datrysiadau wedi'u harwain gan y gymuned.

Roedd y cynlluniau ariannu yn cynnwys parhad o'r cynllun i feithrin gwydnwch mewn rhwydweithiau bwyd lleol drwy gydlynu gweithgaredd ar lawr gwlad yn gysylltiedig â bwyd, a helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd. Roedd hefyd yn cynnwys cynllun newydd oedd yn galluogi'r partneriaethau i ddatblygu seilwaith, creu cyfleoedd cyflenwi lleol newydd a chefnogi tyfwyr sy'n newydd i'r maes garddwriaeth. Dyrannwyd y cyllid hwn drwy 22 o brosiectau ar raddfa fach i gyflwyno arferion arloesol mewn ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru; yn ogystal â dau brosiect cydweithredol ar raddfa fwy sy'n cynnwys nifer o Bartneriaethau Bwyd Lleol.

## Astudiaethau Achos

**Yn ogystal â rhoi ciplun o'r sefyllfa bresennol, mae'r adroddiad hwn yn edrych yn fanylach ar waith y partneriaethau drwy bum astudiaeth achos ysbrydoledig, sy'n dangos dau brosiect cydweithredol rhanbarthol yn ogystal â chanolbwyntio ar Sir Ddinbych, Rhondda Cynon Taf, a Sir Benfro. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr lawn o'r grantiau Bach a Chydweithredol a ddyfarnwyd i Bartneriaethau Bwyd Lleol.**

**Mae pob un o'r astudiaethau achos ysgrifenedig wedi'u hategu gan ffilm fer a gynhyrchwyd gan Will Barker gyda delweddau gan Matthew Horwood a Dafydd Owen.**

**Cliciwch ar y saethau i wylio'r ffilmiau**

## ASTUDIAETH ACHOS:
# Partneriaeth Bwyd RhCT: Cysylltu cymunedau drwy fwyd da




Mae Partneriaeth Bwyd RhCT yn rhwydwaith sydd wedi ennill sawl gwobr ac mae'n cynnwys sefydliadau, grwpiau cymunedol, busnesau bwyd a chyrff cyhoeddus wedi'u huno gan weledigaeth gyffredin: sicrhau bod pawb yn Rhondda Cynon Taf yn gallu cael mynediad at fwyd iach, fforddiadwy sydd o les i bobl ac i'r blaned.

Wedi'i chynnal o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, mae'r bartneriaeth, a gafodd Wobr Arian Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn ddiweddar, wedi tyfu i fod yn fudiad dynamig ar draws y sir sy'n cysylltu sefydliadau lleol, yn rhannu arferion gorau, yn cyfeirio at gyfleoedd cyllido ac yn cefnogi camau gweithredu wedi'u harwain gan y gymuned. Mae ei chyfarfodydd rhwydwaith chwarterol a'i his-grwpiau o Dyfwyr a Phantris arbenigol yn dod â phobl at ei gilydd i drafod heriau cyffredin a chyd-uchelgeisiau.

## Agwedd gydweithredol at fwyd da

Mae Cydlynydd y Bartneriaeth, Rhiannon Edwards, yn disgrifio'r rhwydwaith fel "grŵp o sefydliadau, unigolion, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi dod at ei gilydd i i wneud RhCT yn lle mwyaf cynaliadwy bosibl o ran bwyd. Mae llawer o wahanol bobl a sefydliadau yn cymryd rhan...yn gwneud pethau gwych ledled y sir."



Mae'r ethos cydweithredol hwn i'w weld ym mhob prosiect a gefnogir gan y bartneriaeth. Yn hytrach na gorfodi



atebion, mae'n cryfhau'r hyn sy'n bodoli eisoes, gan alluogi cymunedau i ddylunio'r newidiadau y maent am eu gweld.

## Cynon Valley Organic Adventures: tyfu sgiliau, hyder a chymuned

Mae Cynon Valley Organic Adventures yn gweithio gyda phobl ifanc nad ydynt bob amser yn ffynnu mewn addysg prif ffrwd. Drwy leoliadau tymor hir, maen nhw'n cael profiad ymarferol o dyfu bwyd, cymwysterau a sgiliau trosglwyddadwy. Ond mae'r effaith i'w gweld ymhell y tu hwnt i gyflogadwyedd.

Fel yr esbonia Janis Werrett, sy'n helpu i redeg y prosiect: "Rydym yn dod â phobl ifanc i mewn nad ydyn nhw'n ffitio i mewn i addysg brif ffrwd. Maen nhw'n dysgu sut i dyfu bwyd, ennill cymwysterau, ac rydym yn eu cefnogi i gymryd y camau nesaf."

Mae un cyfranogwr ifanc, Emily, yn disgrifio'r effaith: "Mae'n llawer o hwyl yma oherwydd mae'n heddychlon iawn ac mae'n eich helpu'n fawr. Mae wir yn helpu pobl i fynd allan a chael rheswm i godi o'r gwely yn y bore"

Mae'r prosiect yn datblygu cyflogadwyedd a hyder, yn ogystal â thyfu bwyd ar gyfer y gymuned ehangach, gan helpu i atgyfnerthu gwydnwch lleol.

"Mae gennym lefel ymgysylltiad cymunedol enfawr...mae'n ganolbwynt y gymuned i raddau helaeth. Ond gwelsom fod rhai diwylliannau yn amharod i ymgysylltu. Felly'r hyn rydym ni wedi'i wneud eleni yw gweithio ar dwnnel polythen amlddiwylliannol lle rydym yn annog pobl o wahanol ddiwylliannau i ddod i mewn i rannu ryseitiau gyda ni, i goginio gyda ni a'n dysgu ni am y bwydydd y bydden nhw'n eu coginio. Rydym yn tyfu bwyd o bob cwr o'r byd hefyd."

Meddai Janis, "Mae'r bartneriaeth fwyd wedi dod â ni i gyd at ein gilydd. Rydym i gyd yn gwneud pethau tebyg, ond pan fyddwn i gyd yn dod at ein gilydd yn rheolaidd ac ar gyfer y cyfarfodydd hynny, mae'n rhoi cyfle i ni rannu gwybodaeth, rhannu adnoddau."

## Down to Zero: Cynnyrch lleol ffres ar garreg y drws



Wedi'i lleoli ym Mwyndy ger Tonysguboriau, mae Down to Zero yn gymdeithas budd cymunedol ac yn fenter gymdeithasol. Yn is-gwmni o grŵp Tai Cymunedol, mae'n helpu tenantiaid, staff a'r gymuned yn ehangach i wella eu mynediad at fwyd tymhorol, lleol, iach ac yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli; datblygu sgiliau a gwybodaeth, yn ogystal â chynnal cynllun bocs llysiau.

"Er bod rhan fawr o'r hyn a wnawn yma yn helpu i gau'r bwlch sgiliau a rhoi sgiliau tyfu gwyrdd i bobl, y rhan arall yw ein bod eisiau i hyn fod yn rhan o'r datrysiad ar gyfer darparu'r cynnyrch hwnnw hefyd," meddai Holly




Cookston-Williams, yr arweinydd Bwyd a Natur yn Down to Zero.

"Mae gennym ddau safle amaethyddol, un ym Mhont-y-clun ac un yn Aberpennar ac rydym yn rhedeg gwasanaeth tanysgrifiad llysiau hefyd o'r enw'r Llysh Bocs," esboniodd Holly.

Mae'r cynllun Llysh Bocs yn cael ei gydlynu gan Kevin Edwards, sy'n tyfu, yn pacio ac yn dosbarthu bocsys llysiau mewn fan drydan ledled RhCT. "Rwy'n hoffi gweithio yn yr awyr agored. Rwy'n hoffi tyfu. Rwy'n hoffi gweld y llysiau'n cael eu cynhyrchu — y Llysh Bocs yw fy nghynllun bach i. Rydw i'n teimlo'n angerddol amdano."

Wrth drafod bod yn rhan o'r bartneriaeth bwyd, ychwanega Holly "Mae gweithio gyda phobl eraill wedi bod yn ysbrydoledig iawn. A'n bod i gyd yn gweithio tuag at yr un achos. Rwy'n credu nad ydym yn gwybod llawer weithiau yn unigol, ond gyda'n gilydd, rydym yn gwybod cryn dipyn...gallwn weithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i ateb."

## Menter Treherbert: Mynediad at fwyd wedi'i lywio gan leisiau lleol



Yn Nhreherbert, mae'r bartneriaeth wedi chwarae rhan allweddol yn y broses o ddatblygu ymateb wedi'i arwain gan y gymuned i heriau mynediad at fwyd. Datgelodd sgyrsiau gyda thrigolion argaeledd cyfyngedig cynnyrch ffres a'r anhawster o gael mynediad at ffrwythau a llysiau fforddiadwy.

Esboniodd Rachel Reed, Ymarferydd Iechyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a fu'n rhan o'r fenter, sut y crëwyd y prosiect: "Roedd y practis meddygol lleol eisiau edrych ar Dreherbert i geisio canfod beth y gallai ei wneud i wella iechyd a llesiant yn yr ardal. Fel y gwyddom, mae cyfraddau uchel o glefydau cronig, gordewdra, pwysedd gwaed uchel - ac roedd y feddygfa wir eisiau gwneud rhywbeth ar gyfer yr ardal. Felly, fe wnaethom ddechrau drwy siarad â phobl yn y gymuned gan gynnwys sefydliadau lleol, ysgolion, grwpiau ac yn y blaen, a gofyn iddyn nhw beth fyddai'n eu helpu i fyw bywydau hir ac iach."

Aeth Rachel ymlaen i ddatgan pa mor bwysig fu'r bartneriaeth fwyd i lwyddiant y gwaith hwn. "Mae'r bartneriaeth fwyd yn hanfodol.....hebddi, byddwn yn mynd o gwmpas y lle ac ni fyddem yn gallu cynnig y ffrwythau a'r llysiau cost isel i'r trigolion yma....mae'n hollbwysig. Mae'n alluogwr."

Y prif gais gan yr holl drigolion oedd mynediad gwell at fwyd fforddiadwy, o ansawdd da felly penderfynodd y Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol, mewn cydweithrediad â'r bartneriaeth fwyd a'r grŵp lleol, Grow Rhondda, sefydlu marchnad ffrwythau a llysiau newydd yng nghaffi Grow Rhondda.

Mae'r trefnydd lleol David Harris yn disgrifio ei heffaith: "Mae'n gallu bod yn brysur iawn. Mae pobl o'r gymuned yn cael eu gwahodd i mewn, a gallant gael gafael ar ffrwythau a llysiau ffres am bris cost-effeithiol. Mae pobl yn gorfod teithio allan o'r ardal i brynu bwyd ffres…rydym yn dod â'r bwyd yn uniongyrchol i mewn i'r gymuned - nid oes unrhyw beth yn costio mwy na £1.50."




Mae'r nod yn syml: lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy sicrhau bod bwyd yn hygyrch a fforddiadwy.

Mae Claire Turbutt, yr Arweinydd Systemau ar gyfer Pwysau Iach ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn pwysleisio'r dull gweithredu wedi'i arwain gan y gymuned: "Yr hyn sy'n wahanol yw bod hyn yn ymateb i'r hyn mae'r gymuned wedi'i ddweud wrthym. Nid yw'n fenter o'r brig i'r bôn – rydym yn mynd â'r bwyd at y bobl, a chynllunio o gwmpas yr hyn rydym yn ei glywed. Yr hyn rydym yn ceisio ei wneud yw edrych ar brif achosion y problemau a welwn yn ein cymunedau…mae pobl wedi dweud wrthym eu bod yn cael anhawster i gael gafael ar ffrwythau a llysiau felly rydym yn ceisio canfod beth yw'r rhesymau sylfaenol dros hynny."



Mae Claire yn mynd ymlaen i gydnabod brwdfrydedd y partneriaethau bwyd y mae hi'n gweithio gyda nhw. "Mae'r partneriaethau'n llawn o bobl sydd wir eisiau ei wneud yn lle gwell i fyw, a'i gwneud yn haws i'n poblogaeth fagu eu plant i fod â phwysau iach a byw bywydau iach, a chael y bywydau hir, hwyliog a llwyddiannus hynny. Drwy'r partneriaethau bwyd, mae gennym gyfle i wneud mwy ar gyfer y genhedlaeth nesaf - i greu amgylchedd lle y bydd pobl yn tyfu i fyny, yn byw yma ac yn hapus ac yn iach."

## Dod ynghyd o amgylch bwyd

Mae Partneriaeth Bwyd RhCT yn dangos beth sy'n digwydd pan fydd cymunedau, tyfwyr, sefydliadau a chyrff cyhoeddus yn dod ynghyd o amgylch un nod cyffredin, sef sicrhau bwyd da i bawb. Drwy ddylunio dan arweiniad y gymuned, prosiectau tyfu cynhwysol, a mentrau bwyd hygyrch, mae'r bartneriaeth yn creu system fwyd gynaliadwy sy'n fwy gwydn, teg, a chysylltiedig - un sy'n seiliedig ar bobl a lle.

"Mae'r gwaith yn Nhreherbert, Mwyndy, ac Abercynon yn bocedi o wychder," ychwanega Rhiannon Edwards. "Yr her gyffrous ond heriol nesaf yw cael pawb i barhau i gydweithio i greu newid i'r amgylchedd bwyd, i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at y bwyd maen nhw ei eisiau. Mae'n golygu adeiladu ar yr hyn mae cymunedau ar draws RhCT ei eisiau gan y bartneriaeth fwyd a chreu ymdeimlad o berthyn. Bwyd yw'r ffordd orau o ddod â phobl at ei gilydd….does dim byd gwell na siarad am fwyd."

ASTUDIAETH ACHOS:

# Cysylltu'r Dotiau: Sut mae Partneriaeth Bwyd Sir Benfro yn creu system bwyd lleol lewyrchus



Mae Partneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro yn dod â phobl, cynhyrchwyr a sefydliadau ynghyd i gryfhau'r system fwyd leol. Wedi'i chynnal gan Blaned, nod yw sicrhau bod bwyd ar gael a'i fod yn fforddiadwy, ac mae'n dathlu bwyd ledled y sir, yn cefnogi cymunedau, yn annog tyfwyr lleol ac yn meithrin diwylliant bwyd llewyrchus.

Drwy gysylltu syniadau, prosiectau a phobl, mae'r bartneriaeth yn helpu i greu amgylchedd bwyd mwy cynaliadwy a ffyniannus i'r sir gyfan.

## Cysylltu bwyd a chymunedau ledled Sir Benfro



I Sue Latham, Cydlynydd Partneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro, cydweithrediad yw sail y gwaith. Fel yr esbonia, "mae'n rhoi trosolwg o fwyd ledled y sir – o sefydliadau cymunedol i gynhyrchwyr masnachol i grwpiau, yn ogystal ag unigolion sydd â diddordeb mewn bwyd. Mae'n golygu cysylltu'r dotiau rhwng bwyd ar draws y sir i'w wneud yn fwy cynaliadwy ac i greu amgylchedd bwyd ffyniannus i bawb."

Mae rôl Sue yn galluogi unigolion a grwpiau a fyddai'n gweithio ar eu pen eu hunain fel arall, i gysylltu, cydweithio a rhannu gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n cryfhau gwydnwch bwyd cyffredinol y sir.

## Cilrath Acres: Tyfu bwyd, gwella sgiliau a datblygu cymunedau cryfach





Yn Arberth, mae prosiect tyfu o'r enw Cilrath Acres yn cyfrannu cynnyrch ffres yn uniongyrchol i fanc bwyd y dref, wrth greu cysylltiadau ystyrlon yr un pryd ymhlith gwirfoddolwyr. Fel yr esbonia Dina o'r prosiect, "Mae gennym tua 65 o welyau tyfu a thwnnel polythen lle rydym yn tyfu llawer o salad gaeaf a sibols. Y tu allan, mae gennym berllan fach a gwelyau sy'n llawn tatws a chnydau bresych. Rydym bob amser yn awyddus i roi cynnig ar rywbeth newydd...arbrofi wrth dyfu llawer o fwyd blasus."

Mae Karen, Cydlynydd Gwirfoddolwyr, yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltiad cymunedol. "Mae gennym tua 25 o wirfoddolwyr rheolaidd sy'n cymryd rhan ym mhob agwedd ar y gwaith tyfu." Mae hefyd yn disgrifio sut mae'r prosiect yn cysylltu â rhwydwaith bwyd ehangach Sir Benfro. "Fe wnaethom gynnal digwyddiad i dyfwyr gyda'r bartneriaeth fwyd yn 2023 a daeth y gerddi cymunedol ar draws y sir at ei gilydd. Mae yna rwydwaith tyfu yn awr sy'n cael ei redeg o dan y bartneriaeth bwyd lleol ac rydym yn cynnal rhai o'u cyfarfodydd. Mae rhai o'r gerddi cymunedol eraill yn dod i'n gweithdai i ddysgu sgiliau newydd.....Rwy'n credu bod cryfder mewn niferoedd ac mae yna lawer o wybodaeth y gall pobl ei rhannu yn seiliedig ar eu profiad."

## PATCH Aberdaugleddau: Banc Bwyd a Hwb Cymunedol

Yn ystod ymweliad â PATCH yn Aberdaugleddau, rhannodd y Rheolwr Dave Golding wybodaeth am waith y sefydliad a'r realiti o ran cymorth bwyd yn Sir Benfro. "Banc bwyd ydyn ni'n bennaf, ond mae'n rhywbeth mwy cymunedol i mi. Rydym wedi'n lleoli yn Aberdaugleddau ac mae llawer o bobl yn ein hadnabod ni. Rydym yn y gymuned. Ar gyfer y gymuned. Mae llawer o bobl yn dod i mewn ac yn gweld ei fod yn lle diogel ac i lawr y grisiau, yn ein siop elusen, mae gennym oergell gymunedol sydd ar gael i unrhyw un, unrhyw aelod o'r cyhoedd.



Aiff Dave ymlaen i ddisgrifio sut mae'r bartneriaeth wedi cefnogi gwaith PATCH. "Rwy'n dweud hyn drwy'r amser wrth bobl yn y sector bwyd yn Sir Benfro...mae'r bartneriaeth bwyd yn wych! Gyda chymorth y bartneriaeth, fe wnaethom ddechrau cynllun bocsys llysiau ac mae wedi ein helpu i gael oergell gymunedol hefyd. Y peth gorau yw'r wybodaeth..... rhannu gwybodaeth, rhannu adnoddau, ac rwy'n credu bod y bobl hefyd, eu bod yn angerddol am yr hyn maen nhw'n ei wneud."

## Eco Dewi a Hwb Bwyd y Penrhyn: Cysylltu pobl â chynhyrchwyr lleol



Menter gymdeithasol sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn Nhyddewi yw Eco Dewi, sydd hefyd wedi elwa ar y cymorth a'r cysylltedd a gynigir gan y bartneriaeth bwyd lleol yn Sir Benfro. Gan esbonio tarddiad eu Hwb Bwyd y Penrhyn, dywedodd Jeremy o Eco Dewi: "Mae i gyd yn ymwneud â chysylltu pobl leol â chynhyrchwyr bwyd lleol. Gwneud yn siŵr bod pobl yn ymwybodol bod bwyd lleol gwych yn cael ei gynhyrchu yma, a gallu cysylltu'r ddau i helpu'r cynhyrchwyr lleol gyda'u gwerthiannau. Rydym yn fenter ddielw sy'n canolbwyntio ar brosiectau cymunedol ac amgylcheddol ac mae'r cyfan mewn gwirionedd yn ymwneud â phobl leol yn datrys problemau lleol sy'n fuddiol i'r amgylchedd lleol."

Aiff ymlaen i ddweud, "Mae gennym gyfanswm o 40 o gynhyrchwyr lleol, a Câr y Môr yw un o'r cynhyrchwyr anhygoel hyn. Maen nhw wedi'u lleoli yn Nhyddewi ei hun felly maen nhw'n un o'n cynhyrchwyr mwy lleol. Mae ein cwsmeriaid yn gefnogol iawn. Maen nhw'n caru'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r cynnyrch yn dod o fewn 15 milltir iddynt ac mae awydd gwirioneddol i gefnogi busnesau lleol, a datblygu rhywfaint o wydnwch bwyd yn yr ardal."

Dywedodd Meg o Câr y Môr, fferm wymon gyntaf Cymru, "Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i bobl fwyta bwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol yn eu hardal nhw. Mae bod yn rhan o Hwb Bwyd y Penrhyn wedi bod yn wych oherwydd y rhwydwaith hwnnw o gynhyrchwyr sydd wedi dod â ni i gyd at ein gilydd, ac mae'n golygu ei fod yn un peth llai i ni ei wneud oherwydd ei fod yn rhedeg ei hun ac mae'n dweud wrthym, rhestrwch eich cynhyrchion, bydd pobl yn dod ar-lein ac yn prynu'r cynhyrchion hynny. Mae'n helpu ein hamlygrwydd yn lleol. Mae bod yn rhan o Hwb Bwyd y Penrhyn wedi bod yn wych, ac mae'n ffordd hyfryd i bawb ddeall pwy sy'n cynhyrchu bwyd yn yr ardal, ac i'r cynhyrchwyr gael llwyfan."








Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

Mae Jeremy yn myfyrio ar y cymorth y mae Eco Dewi wedi'i gael gan y bartneriaeth: "Mae'r bartneriaeth bwyd lleol wedi bod yn wych, yn ein cefnogi fel sefydliad. Rwy'n credu ei bod yn wych gallu cydweithio gyda mwy o bobl sy'n gwneud pethau tebyg....a gwybod bod pobl eraill yn cael problemau tebyg, brwydrau tebyg, oherwydd nid yw'n hawdd. Mae cael sefydliad cyffredinol i'n cysylltu ni i gyd gyda'n gilydd, i rannu syniadau, a rhannu ychydig o gyllid, yn bendant yn helpu."

## Sir Benfro gryfach,fwy cysylltiedig

Ledled y sir, mae Partneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro yn cefnogi prosiectau uchelgeisiol, yn meithrin cynhyrchu bwyd yn lleol ac yn meithrin mwy o wydnwch cymunedol. Boed hynny drwy gefnogi oergelloedd cymunedol, cysylltu prosiectau tyfu, cryfhau prosiectau cynhyrchu lleol neu helpu trigolion i gael mynediad at fwyd lleol ffres, mae'r bartneriaeth yn profi gwerth cydweithio.

Drwy "gysylltu'r dotiau," mae'r bartneriaeth yn helpu Sir Benfro i ddatblygu system bwyd lleol sydd wedi'i diffinio gan angerdd a rennir, cymorth ymarferol ac ymrwymiad i sicrhau bwyd da i bawb.










ASTUDIAETH ACHOS:

# COGOG: Cefnogi a Chryfhau Camau Gweithredu Bwyd Cymunedol ledled Sir Ddinbych




Partneriaeth fwyd aml-asiantaeth leol Sir Ddinbych yw Cogog ac mae'n gweithio ochr yn ochr â grwpiau cymunedol i leihau gwastraff bwyd, trechu tlodi bwyd, a datblygu mentrau bwyd cynaliadwy ledled y sir. Ers ei lansio ym mis Mawrth 2024, mae'r bartneriaeth - sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ddinbych - wedi cefnogi ei haelodau gyda chanllawiau ymarferol, cydweithredu, a chyllid i helpu i ddarparu prosiectau bwyd wedi'u harwain gan y gymuned.

## Datblygu Rhwydwaith Cysylltiedig o Fentrau Bwyd Cymunedol

COGOG yw'r enw a ddefnyddir i ddiffinio'r bartneriaeth bwyd lleol yn Sir Ddinbych. Fel yr esbonia Nikki Jones, cydlynydd COGOG, "Mae COGOG yn dod â'r holl fentrau bwyd cymunedol ar draws Sir Ddinbych at ei gilydd. Mae'r mentrau hynny yn cynnig popeth o ddarpariaeth bwyd mewn argyfwng, banciau bwyd a byrddau bwyd am ddim, i randiroedd, mannau tyfu a chaffis cymunedol."



Gyda'i gwreiddiau cymunedol cadarn a rhwydwaith sy'n rhychwantu tirwedd eang ac amrywiol Sir Ddinbych, mae'r fenter gydweithredol hon yn helpu i gefnogi a magu hyder a chapasiti ledled y sir.

## Y Tŷ Gwyrdd, Dinbych – 'Mwy na siop'

Un o'r busnesau sy'n cael eu cefnogi gan COGOG yw Y Tŷ Gwyrdd yn Ninbych.

Mae Y Tŷ Gwyrdd yn cynnig gofod cynhwysol a chroesawgar i'r gymuned leol, i ddathlu a hybu'r bobl a'r mentrau ysbrydoledig yn Ninbych a'r dalgylch. Mae'n helpu i leihau effaith y cymunedau ar yr amgylchedd drwy gynnig opsiynau a chyfleoedd dim gwastraff fforddiadwy a hygyrch i hwyluso economi gylchol.




"Mae'n sicr yn fwy na siop," esbonia Margi Pearce, Rheolwr Y Tŷ Gwyrdd. "Mae wedi datblygu i fod yn lle i bobl ddod i roi'r byd yn ei le, a rhannu sut maen nhw'n teimlo. Rydym yn dathlu gwaith lleol ac yn cwrdd â phobl anhygoel, - staff, gwirfoddolwyr a chwsmeriaid. Dyna sy'n eich cadw i fynd."

Aeth Margi ymlaen i ddisgrifio'r effaith o fod yn rhan o'r rhwydwaith a sut mae wedi ei helpu yn ei gwaith. "Drwy COGOG, mae gennym enw cyswllt y gallwn siarad ag ef, i ofyn am gyngor, felly mae wedi bod yn amhrisiadwy o ran hynny. Mae bod yn rhan o COGOG yn rhoi hyder i chi yn yr hyn rydych chi'n ei wneud. Weithiau gallwch deimlo wedi'ch llethu ac yn ynysig, felly mae cael rhwydwaith ehangach yn gwneud i chi deimlo'n gryfach ac mae hynny'n hollbwysig er mwyn gwneud i bethau ddigwydd."

Bellach, mae Margi yn rhan o grŵp llywio COGOG ac mae'n edrych ymlaen at gyfrannu at y gwaith o bennu cyfeiriad strategol y bartneriaeth. "Gofynnwyd i mi eistedd ar y grŵp strategol felly mae hynny'n mynd i fod yn fath gwahanol o fewnbwn, ffordd newydd o gyfranogi, sy'n gyfle cyffrous arall. Mae'n grŵp anhygoel, i gael y math hwnnw o adnodd sy'n cefnogi sefydliadau fel ni, rydym i gyd yn yr un cwch."










## Cefnogi mynediad at fwyd yn Y Rhyl

Mae David Jones, Rheolwr Ymgyrch ym Manc Bwyd Y Rhyl, wedi bod yn gweithio'n agos gyda COGOG i wella mynediad trigolion lleol at ffrwythau a llysiau ffres.

"Rydym wedi'n lleoli yn Y Rhyl, y ward fwyaf difreintiedig yng Nghymru, felly rydym yn gweld llawer o bobl ddigartref yn ogystal â theuluoedd a phensiynwyr. Rydym yn rhedeg y banc bwyd sy'n darparu cymorth mewn argyfwng, ac rydym yn cynnal Clwb Bwyd hefyd."

Mae David yn mynd ymlaen i ddisgrifio'r gefnogaeth maen nhw wedi'i chael gan COGOG. "Rydym wedi gweithio gyda'r bartneriaeth fwyd dros y pedair blynedd diwethaf ac mae'n ein helpu ni gyda chynaliadwyedd, ac rydym wedi derbyn grantiau ganddi yn y gorffennol. Mae'r bartneriaeth yn wych i weithio gyda hi....mae hefyd yn ffordd wych o glywed beth mae pawb arall yn ei wneud yn ein hardal ni – mae'n eich cymell ac yn eich ysbrydoli i wneud mwy. Mae hefyd yn gwneud i chi sylweddoli nad ydych chi'n ei wneud ar eich pen eich hun, oherwydd gall eich llethu weithiau. Mae cael partneriaeth â darparwyr a phrosiectau bwyd eraill yn dangos ein bod ni yn y sefyllfa hon gyda'n gilydd, ac mae hynny'n eich cymell i barhau."

## Cysylltiad cymunedol yn Ne Sir Ddinbych



Mae Sally Lloyd-Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych, yn tynnu sylw at sut mae'r rhwydwaith yn cryfhau diwylliant o gydweithio.

"Mae ein gwaith i gyd yn ymwneud â'r gymuned," meddai Sally, "Rydym yn dod â phobl at ei gilydd ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn gallu defnyddio gwasanaethau yn lleol. Rydym yn cynnal clwb cinio ar gyfer pobl hŷn, sesiynau i deuluoedd yn ystod gwyliau'r ysgol, pryd ar glud, banc bwyd, pantri ac oergell gymunedol erbyn hyn."

# ASTUDIAETH ACHOS: **COGOG: CEFNOGI A CHRYFHAU CAMAU GWEITHREDU BWYD CYMUNEDOL LEDLED SIR DDINBYCH**






Ar ôl derbyn cyllid yn ddiweddar gan COGOG i gynnal prosiect coginio, mae Sally yn disgrifio'r effaith y mae COGOG wedi'i chael ar eu gwaith. “Mae rhwydwaith COGOG yn Sir Ddinbych yn werthfawr iawn,” meddai Sally ymhellach. Rydym yn cysylltu, yn rhannu syniadau ac weithiau'n cydweithio. Yn ddiweddar, mae cyllid gan COGOG wedi ein galluogi i gynnal prosiect newydd sy'n cynnig sesiynau coginio i deuluoedd, grwpiau i ddynion yn unig, a phobl sy'n profi heriau iechyd meddwl.”



## Mudiad sy'n Tyfu gyda'r gymuned wrth ei galon

Mae Nikki Jones yn myfyrio ar dwf a dyfodol y rhwydwaith ac yn disgrifio sut mae gwaith COGOG yn adlewyrchu anghenion cymunedau'r sir.

“Rwy'n falch iawn o'r nifer o fentrau bwyd cymunedol sydd gennym erbyn hyn, ac yn hynod falch o'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn eu cymunedau. Drwy weithio gyda grwpiau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lleol, gallwn ddod yn agosach at drigolion a gweithio ar y dystiolaeth o angen sy'n dod yn uniongyrchol ganddyn nhw.”

Mae Nikki'n mynd ymlaen i ddweud: “Fel rhwydwaith, rydym yn dod at ein gilydd i rannu syniadau. Mae'n golygu darparu mynediad i bawb - bod bwyd maethlon a fforddiadwy ar gael i bawb. Mae gwybod fy mod i'n cynrychioli llais y gymuned, a fy mod wedi ennyn ei hymddiriedaeth a'i pharch, yn golygu mai dim ond adeiladu ar hynny y gallwn ni. Mae'n beth cadarnhaol iawn.”





ASTUDIAETH ACHOS:

# Datblygu Gwydnwch Bwyd Sifil ledled Dyfed-Powys



Mae'r Prosiect Gwydnwch Bwyd Sifil yn brosiect cydweithredol arloesol sy'n uno'r pedair Partneriaeth Bwyd Lleol sy'n gweithredu yn ardal Dyfed-Powys - Bwyd Powys, Bwyd Sir Gâr, Bwyd Ceredigion a Phartneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro. Yn un o ddwy fenter fawr yng Nghymru sy'n cael eu hariannu drwy Strategaeth Bwyd Cymunedol Llywodraeth Cymru, nod y prosiect hwn yw datblygu strategaeth gwydnwch bwyd rhanbarthol a chymryd camau ymarferol i gefnogi cymunedau drwy bwysau arferol o ddydd i ddydd a digwyddiadau annisgwyl mawr.

Mae'r gwaith, sy'n cael ei arwain gan Bywd Powys, yn cynnwys Labordy Arloesi i gyd-greu datrysiadau, ymchwilio i wendidau, mapio seilwaith hanfodol, buddsoddi mewn cyfleusterau cyffredin ac Uwchgynhadledd Diogeledd Bwyd ranbarthol lle bydd canfyddiadau'n cael eu rhannu ymhlith y rhanddeiliaid.

## Diffinio gwydnwch bwyd

O'r cychwyn cyntaf, roedd tîm y prosiect yn cydnabod yr angen am ddealltwriaeth gyffredin o wydnwch bwyd. Fel yr eglura Chloe Masefield o Bwyd Powys: "Dyma un o'r pethau cyntaf y bu'n rhaid i'r prosiect geisio'i ddiffinio, oherwydd mae cymaint o wahanol ffyrdd o'i ddeall - ac i ni - rydym yn defnyddio'r diffiniad lle mae gan bawb fynediad at fwyd ni waeth beth yw'r amodau."







Fodd bynnag, dim ond yr her gyntaf oedd diffinio'r cysyniad. Profodd y broses o gasglu'r data yr oedd eu hangen i asesu gwydnwch yn anoddach. Fel y dywedodd Chloe, "Un o'r prif broblemau rydym yn eu hwynebu yw diffyg gwybodaeth. Rydym wedi comisiynu Miller Research i weithio ar hyn, ond mae'n anodd iawn canfod data sylfaenol. Mae penderfynu ar y lefel o wydnwch sydd gennym yn awr a sut y gallai hynny ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl gwahanol yn heriol iawn."

## Cydweithredu ar draws y rhanbarth

Un o brif gryfderau'r prosiect yw'r model cydweithredol ar draws y pedair sir yn ardal Fforwm Gwydnwch Lleol Dyfed-Powys. Mae Augusta Lewis o Bwyd Sir Gâr yn disgrifio'r bartneriaeth fel un sy'n torri tir newydd. "Mae hyn yn gydweithrediad gwirioneddol gyffrous rhwng y pedair sir. Rydym o'r farn ei fod yn brosiect arloesol iawn lle y gallwn edrych ar gysylltedd ar draws y siroedd er mwyn creu gwydnwch bwyd sifil."

Aeth Augusta ymlaen i dynnu sylw at y nodweddion gwledig cyffredin a'r angen am ymatebolrwydd lleol. "Mae Dyfed Powys yn cynnwys siroedd mawr, gwledig i raddau helaeth, felly mae gennym rai nodweddion tebyg ar draws yr ardal... ond hefyd ein safbwyntiau unigryw ein hunain sy'n seiliedig ar le. Fel partneriaethau bwyd sy'n seiliedig ar siroedd, gallwn fod yn ymatebol i'r hyn sy'n digwydd yn lleol yn ogystal â'r cydweithio ehangach a all greu rhywbeth mwy."



"Rydym hefyd yn ffodus iawn yng Nghymru bod gennym Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd wedi creu byrddau gwasanaethau cyhoeddus, sy'n dod â gwasanaethau cyhoeddus ynghyd i gael gwell effaith gyda'i gilydd nag ar wahân, ac i gydweithio," esboniodd Augusta. "Yna mae'r partneriaethau bwyd yn ychwanegu gwerth at hynny drwy ddod â dinasyddion ynghyd, a thrwy gamau gweithredu a gweithgarwch

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

ar lefel y gymuned a hefyd gamau gweithredu a gweithgarwch y sector preifat. Rydym yn dod â ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd; darparwyr logisteg a dosbarthu; byrddau iechyd; cynghorau a chymdeithasau gwasanaethau gwirfoddol ynghyd. Felly rydym yn canolbwyntio ar y dull cyfannol iawn hwnnw a sut y gallwn ddefnyddio bwyd fel thema drawsbynciol, i wella llesiant a diogelwch busnesau - o'r ffactorau macro fel y posibilrwydd o amharu ar gadwyni cyflenwi bwyd byd-eang oherwydd newidiadau geo-wleidyddol a newidiadau mewn teyrngarwch; i fethiant cnydau oherwydd y newid yn yr hinsawdd; i weithgaredd gwleidyddol fel Brexit, clefydau pandemig a llu o wendidau posibl eraill yn y cadwyni cyflenwi hir hynny; yn ogystal â chyfrifoldeb byd-eang a mynediad teg at fwyd mewn gwledydd eraill sy'n datblygu."

## Heriau gwledig yng Ngheredigion

Mae Ceredigion yn wynebu heriau penodol iawn sy'n gysylltiedig â'i daearyddiaeth anghysbell a'i heconomi fwyd. Mae Ann Owen o Bwyd Ceredigion yn esbonio'r paradocs o fod yn sir amaethyddol, wledig lle mae trigolion yn parhau i gael anhawster i gael gafael ar fwyd ffres. "Mae pobl wledig yn cael anhawster yn aml i gael gafael ar fwyd ffres. Er ei bod yn sir wledig ble ceir llawer o gynnyrch amaethyddol, gwartheg a defaid yw hynny'n bennaf ac ry'n ni'n annog ffermwyr a thyfwyr i arallgyfeirio i arddwriaeth."

Mae safle Ceredigion ar "ddiwedd y llinell gyflenwi" yn golygu bod gwydnwch yn bryder dybryd. "Pe bai'r lorïau'n dod i stop, pe bai'r trenau'n dod i stop - prinder tanwydd, streiciau, tywydd, clefydau pandemig - ni yw'r cyntaf i deimlo'r effaith. Yn aml, rydym yn gweld silffoedd gwag mewn archfarchnadoedd. Rydym wedi rhoi ein ffydd mewn manwerthwyr mawr, ond nid oes llawer o amrywiaeth o ran y ffordd y mae bwyd yn cyrraedd pobl."

I Ann, mae buddiannau eang y prosiect yn amlwg. "Mae pawb ar ei ennill. Wrth fynd i'r afael â diogeledd a gwydnwch bwyd, rydym hefyd yn edrych ar fynediad cyfartal at fwyd iach, cydlyniant cymunedol, adfywio'r economi leol. Mae'n cyflawni sawl amcan strategol ar yr un pryd."





Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales





## Parodrwydd yn Sir Benfro

I Sue Latham, o Bartneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro, mae'r prosiect yn cynnig sicrwydd i drigolion. "Rwy'n teimlo'n gyffrous am yr ymchwil. Mae gennym ddata da, cadarn felly rydym yn gwybod gyda beth rydym yn gweithio. Mae'n golygu y gallwn fod yn fwy parod ar gyfer digwyddiadau annisgwyl ac ymyriadau i'r gadwyn gyflenwi yn y dyfodol."

Wrth bwysleisio pwysigrwydd hyder y cyhoedd, ychwanegodd Sue: "Mae angen sicrwydd a hyder ar drigolion bod gwaith yn cael ei wneud i sicrhau na fydd ymyriadau i'w cyflenwad bwyd – y bydd bwyd bob amser ar gael hyd eithaf ein gallu."

## Ymchwil a Thystiolaeth

Mae Tom Bajjada o Miller Research wedi bod yn arwain elfen ymchwil y prosiect ac mae'n disgrifio'r gwaith hwn fel gwaith sy'n hollbwysig ar gyfer siapio strategaeth gwydnwch yn y dyfodol. "Holl bwynt y gwaith hwn yw llywio strategaeth gwydnwch bwyd ar gyfer rhanbarth Dyfed-Powys. Y maes cyntaf yr ydym wedi bod yn edrych arno yw asesu cyflwr presennol gwydnwch bwyd - ei rannu'n gyflenwad, galw, llywodraethu, cymuned - ac edrych ar yr holl elfennau gwahanol hyn a gofyn pa mor wydn yw Dyfed-Powys ar hyn o bryd i wrthsefyll sioc. Gallai hynny fod yn unrhyw beth o seiber-ymosodiadau neu effeithiau'r newid yn yr hinsawdd."

"Gwyddom o'r ochr gyflenwi fod gwendidau yn nhermau faint o ffrwythau a llysiau rydym yn eu mewnforio a faint yr ydym yn ei gynhyrchu ac amrywiaeth y cyflenwad. O ran galw, gwyddom fod argaeledd bwyd maethlon yn her. Rwy'n credu y bydd y prosiect ymchwil hwn yn pwysleisio'r heriau allweddol hynny, beth yw'r prif wendidau a beth ddylai'r camau nesaf fod er mwyn mynd i'r afael â hynny ar bob lefel."



Er bod y gwaith hwn yn seiliedig ar ardal Dyfed-Powys, mae Tom yn credu y gallai'r canfyddiadau fod yn berthnasol ar lefel genedlaethol. "Wedi hynny, gellir ei fabwysiadu o bosibl mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru. Mae'n astudiaeth eithaf pellgyrhaeddol....

mae cymaint o randdeiliaid gwahanol yn y system fwyd felly mae dod â llawer o safbwyntiau gwahanol at ei gilydd i gymharu nodiadau ac i rannu gwybodaeth yn eithaf anghyffredin. Mae'n bendant yn gyfle i ddatblygu pethau ymhellach o ran model posibl y gellir ei fabwysiadu mewn mannau eraill yng Nghymru."



## Cyd-ddylunio datrysiadau: Y Labordy Arloesi

Mae gan Labordy Arloesi'r prosiect, sy'n cael ei hwyluso gan Ganolfan y Dechnoleg Amgen, rôl allweddol o ran dod â phobl at ei gilydd. Mae Rachel Tuckett, sy'n arwain y Labordy, yn disgrifio pwysigrwydd gweithio "ar draws ffiniau er mwyn i'r bobl sydd yn y system gyfrannu eu gwybodaeth at y data."

Gan amlygu ehangder y cyfranogiad, meddai Rachel, "Mae'r bobl sy'n cyfranogi yn dod o bob rhan o'r system fwyd yn ardal Dyfed Powys, ac mae hynny'n golygu pawb o gynhyrchwyr cynradd, tyfwyr - pobl sydd â'u dwylo yn y pridd, pobl sy'n cymryd amser o fywoliaethau anodd i ychwanegu eu llais i'r prosiect hwn - i bobl ym maes logisteg, i bobl sy'n gweithio gyda sgiliau bwyd, addysg bwyd. Mae gennym gynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru yma. Mae swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cymryd rhan. Felly rydym yn ceisio cael darlun cyfannol iawn o'r hyn sy'n digwydd yn y system fwyd mewn un lle, ac rydym yn ceisio gwneud yn siŵr ein bod yn cynnwys lleisiau na fyddent bob amser yn cael eu hystyried mewn cysylltiad â'r sgwrs am fwyd."

Yn nhermau gwydnwch, mae Rachel yn pwysleisio'r angen i ystyried ystod o wahanol senarios a allai effeithio ar y ffordd rydym yn cael gafael ar fwyd. "Mae angen i ni feddwl beth yw'r risgiau posibl yn y dyfodol. Sut allai hynny ryngweithio a chreu'r hyn rydyn ni'n ei alw yn effaith raeadru. Oes gennym ni gynlluniau wrth gefn? Y rhwydweithiau cymunedol? Y cyfathrebu rhwng gwahanol lefelau yn y system er mwyn gallu ymateb yn effeithiol a pharhau i fwydo pawb yn dda mewn argyfwng?"





Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

Mae'n credu bod y gwaith yn hollbwysig ac yn ddemocrataidd. "Gwerth y gwaith hwn yw'r ffaith bod pobl o bob rhan o'r system yn cymryd rhan, bod eu llais yn cael ei glywed ac maent ac yn cymryd rhan ddemocrataidd weithredol yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw."



## Lleisiau o'r Fferm

Mae ffermwyr yn gwbl ganolog i wydnwch bwyd, ac roedd Sophia Morgan, ffermwr llaeth o Geredigion, yn falch o allu rhannu ei phersbectif hi yn y Labordy Arloesi. "I mi, mae gwydnwch bwyd yn golygu gallu parhau i ofalu am y dirwedd a'm hanifeiliaid," meddai Sophie. "Mae'n golygu parhau i gynhyrchu bwyd ar gyfer y bobl sy'n byw gerllaw, fel rhan o system sy'n gwella yn hytrach na diraddio."

Gan egluro'r pwysau gwirioneddol y mae ffermwyr yn eu hwynebu, ychwanegodd: "Flwyddyn ar ôl blwyddyn rydym yn cael ein heffeithio gan gyfnodau o sychder. Mae cynaeafu gwair yn dod yn gynyddol anodd. Mae prisiau grawn yn anwadal."

Mae Sophie yn gwerthfawrogi ymrwymiad y prosiect i gefnogi cynhyrchwyr yn uniongyrchol, gan ychwanegu: "Yr hyn sy'n gyffrous i mi am y prosiect penodol hwn yw bod y bobl rwyf wedi gweithio gyda nhw yn angerddol iawn am drosglwyddo rhywfaint o'r cyfoeth ariannol hwnnw yn uniongyrchol i ffermwyr ac arian i ddwylo'r bobl sy'n cynhyrchu'r bwyd.

## Llunio gwydnwch

Ar draws ardal Dyfed-Powys, mae cymunedau, ffermwyr, cyrff cyhoeddus a phartneriaethau bwyd yn dod ynghyd i ymchwilio, trafod a chreu system fwyd gryfach, decach a mwy gwydn. Nid nodi gwendidau yn unig yw bwriad y Prosiect Gwydnwch Bwyd Sifil – mae'n golygu datblygu cydweithrediad, atgyfnerthu cadwyni cyflenwi lleol, grymuso cymunedau a chreu model a allai helpu i siapio gwydnwch bwyd ledled Cymru. Yn anad dim, mae'n amlygu lleisiau'r rhai sy'n tyfu, dosbarthu, paratoi a dibynnu ar fwyd bob dydd, gan sicrhau eu bod yn ganolog i lunio dyfodol y rhanbarth.



# Astudiaeth Achos: **Tyfu'r Sector Garddwriaeth yng Ngogledd Cymru drwy gydweithrediad**



Mae pedair Partneriaeth Bwyd Lleol yng Ngogledd Cymru - Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych (COGOG) - wedi dod at ei gilydd i ddatblygu dull cydgysylltiedig i dyfu'r sector garddwriaeth ledled y rhanbarth.

Wrth galon y fenter hon mae cylch peiriannau a grëwyd ar gyfer tyfwyr a ffermwyr bach ledled Gogledd Cymru. Drwy ddarparu mynediad at gyfarpar arbenigol sy'n aml yn gostus neu'n anodd i dyfwyr unigol gael gafael arnynt, bydd y cylch peiriannau yn galluogi ffermwyr i dreialu a defnyddio technolegau newydd a allai eu helpu i arallgyfeirio, cynyddu eu cynhyrchiant, a chael mynediad at farchnadoedd newydd — gan gynnwys caffael cyhoeddus.

Mae'r prosiect hwn yn un o ddwy fenter fawr yng Nghymru sy'n cael eu hariannu drwy Strategaeth Bwyd Cymunedol Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o ddarparu prosiectau bwyd sy'n ymateb i'r gymuned i fynd i'r afael ag anghenion lleol.



## Creu sylfaen cydweithredol

Caiff y prosiect ei arwain gan David Wylie, Rheolwr Bwyd Menter Môn, sy'n goruchwylio Partneriaethau Bwyd Gwynedd ac Ynys Môn. "Mae cydweithio gyda Phartneriaethau Bwyd ar hyd a lled Gogledd Cymru wedi bod yn hollbwysig wrth ddatblygu'r dull





gweithredu hwn," meddai David. "Mae mewnbwn gan awdurdodau lleol a chydlynwyr partneriaethau bwyd wedi helpu i greu prosiect sy'n targedu tyfwyr ledled y rhanbarth. Mae gan bob partneriaeth gydlynydd sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â ffermwyr a thyfwyr i ganfod cyfarpar na fyddent yn gallu eu fforddio neu gael mynediad iddynt fel arall. Y weledigaeth yw y bydd y cylch peiriannau yn prynu'r eitemau hynny ac yn sicrhau eu bod ar gael i bawb."

Roedd y trafodaethau cynnar yn canolbwyntio ar sut y gallai tyfwyr gynyddu eu cynhyrchiant i ddiwallu'r galw lleol. Er bod yr uchelgeisiau hirdymor yn cynnwys buddsoddi mewn oeryddion a seilwaith storio oer, dywedodd David fod angen i'r rhanbarth gynyddu'r swm o gynnyrch sy'n cael ei dyfu'n lleol i ddechrau.

"Bu'n rhaid i ni gymryd cam yn ôl a gofyn: sut allwn ni gefnogi tyfwyr i gynyddu eu cynhyrchiant? Mae'r cylch peiriannau yn fan cychwyn hollbwysig."

Ychwanegodd bod awdurdodau lleol yn fwyfwy awyddus i gaffael mwy o ffrwythau a llysiau o Gymru ar gyfer eu bwydlenni — galw sydd wedi cynyddu yn sgil y prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion.

## Cefnogi tyfwyr i ehangu ac arallgyfeirio

Mae'r Ymgynghorydd Garddwriaeth Debbie Hadley wedi bod yn cydweithio'n agos gyda'r partneriaethau bwyd i greu'r cylch peiriannau ac ymgysylltu â thyfwyr ar draws y rhanbarth.



"Fy rôl i yw dod â thyfwyr at ei gilydd — darganfod tyfwyr newydd a'u cynorthwyo i gyrraedd pwynt lle y gallant gyfrannu a chyflenwi cytundebau caffael cyhoeddus," meddai Debbie. "Gallai hynny olygu hyfforddiant, help i droi'n organig, neu gymorth i gyflawni safonau cyflenwyr. Gan weithio gyda Lantra, rydym yn ceisio paratoi tyfwyr ar gyfer cyfleoedd newydd, ac yna bydd y cylch peiriannau yn eu helpu i gael mynediad at farchnadoedd newydd neu arallgyfeirio i arddwriaeth."





Dywedodd Debbie mai mentrau bach a chanolig eu maint yw'r mwyafrif o fentrau garddwriaeth yng Ngogledd Cymru. "Nid oes llawer o dyfwyr mawr yn y rhanbarth, felly y gobaith yw y bydd y prosiect yn helpu ffermydd bach i dyfu eu busnesau a chael mynediad at gyfleoedd newydd."

## Tyfwyr yn croesawu'r cyfleoedd i ddod

Mae dau dyfwr o Ogledd Cymru — Claire Crook o Dyddyn Teg a Paul Gordon-Roberts o Gwmni Buddiant Cymunedol Growing for Change — yn obeithiol ynglŷn â'r effaith y bydd y cylch peiriannau yn ei chael.

## Tyddyn Teg

Wedi'i lleoli ar odre'r Wyddfa, mae Tyddyn Teg yn fferm 30 erw sy'n newid i statws organig ar hyn o bryd.

"Rwy'n credu bod y cylch peiriannau yn ddatblygiad cyffrous, yn arbennig ar gyfer garddwriaeth yng Nghymru, ond yn benodol yng Ngogledd Cymru. Rwy'n credu bod adnoddau yn brin iawn i ni fel sector. Ac mae cael mynediad i'r cylch peiriannau yn golygu y gall tyfwyr llai ddechrau cynyddu eu cynhyrchiant. Gallant roi cynnig ar ddefnyddio peiriannau nad ydynt ar gael iddyn nhw fel arall. Hoffwn weld y sector garddwriaeth yn ehangu'n sylweddol yn yr ardal hon, a hoffwn weld mwy o ffermydd bach a chanolig eu maint yn tyfu llawer o lysiau sy'n cael eu gwerthu'n lleol, a chael eu gwerthu yn yr archfarchnadoedd hyd yn oed."









## Cwmni Buddiant Cymunedol Growing for Change

Wedi'i lleoli ar Fferm Moelyci y tu allan i Fangor, mae Growing for Change yn Ardd Farchnad Organig sy'n cefnogi pobl sydd wedi rhoi'r gorau i gamddefnyddio sylweddau.

"Rydym yn tyfu cnydau gwerth uchel mewn ardal fach ac rydym eisoes yn cyflenwi bwytai lleol, ond rydym yn awyddus i gynyddu ein cynhyrchiant a chyflenwi ysgolion lleol a'r sector cyhoeddus. Hoffem i fwyd organig, maethlon sy'n ddwys o ran maetholion fod ar gael i bawb."

Wrth drafod y cylch peiriannau, dywedodd, "Mae'n syniad gwych. Rydym wedi gorfod prynu rhai darnau drud o offer ac ond wedi'u defnyddio am wythnos neu ddwy y flwyddyn. Felly, pe gallem rannu hynny'n deg, byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr yn economaidd. Mae'n golygu y gellir lleihau'r costau afresymol sy'n gysylltiedig â dechrau ffermio yn aruthrol."

## Cydlynu lleol ac effaith gymunedol

Mae Aled Pritchard, Cydlynydd Partneriaeth Bwyd Gwynedd, yn ystyried mai ei rôl yw sicrhau bod y prosiect yn diwallu anghenion tyfwyr.

"Fy rôl i yw rhannu gwybodaeth am y cylch peiriannau a sicrhau bod y prosiect wedi'i seilio ar yr heriau a'r cyfleoedd yng Ngwynedd. Mae tyfu yn fater cymhleth — mae cael









y cyfle i roi cynnig ar rywbeth newydd heb risg ariannol yn amhrisiadwy. Mae'n annog ffermwyr a thyfwyr i arbrofi; i ddysgu a rhannu gwybodaeth gyda'r gymuned wych o dyfwyr sydd gennym yma yng Ngwynedd."

Mae Nikki Jones o Bartneriaeth Bwyd Sir Ddinbych, COGOG, yn pwysleisio gwerth cydweithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol. "Rydym yn gweithio'n rhanbarthol nawr....rhywbeth rydw i wedi bod eisiau ei wneud ers dechrau'r bartneriaeth fwyd yn Sir Ddinbych - gweithio ar draws ffiniau siroedd. Rwy'n teimlo y bydd y prosiect cylch peiriannau yn hynod gadarnhaol i dyfwyr oherwydd ei fod yn rhywbeth nad yw wedi bod ar gael iddyn nhw yn Ninbych o'r blaen."

Mae Liz Gordon, cydlynydd Partneriaeth Bwyd Conwy, yn adleisio'r brwdfrydedd hwn: "Bydd ein prosiect cydweithredol yn wirioneddol bwysig i Gonwy ..... bydd yn ein helpu i ymgysylltu â thyfwyr yn yr ardal, rhywbeth nad ydym wedi gallu ei wneud llawer eto fel partneriaeth fwyd. Bydd yn agor drysau i ni gyfathrebu â'r tyfwyr lleol hynny, a bydd yn dda gweld rhai llysiau lleol o Gonwy yn mynd i ysgolion Conwy."

## Cam tuag at system fwyd ranbarthol fwy gwydn

Mae Prosiect Cydweithredol Gogledd Cymru yn gwneud gwaith paratoadol hanfodol ar gyfer sector garddwriaeth cryfach, mwy gwydn. Drwy alluogi tyfwyr i gael mynediad at offer, cynyddu cynhyrchiant ac ymuno â marchnadoedd newydd, gan gynnwys caffael cyhoeddus, mae'r prosiect yn helpu i greu system fwyd sy'n creu budd i ffermwyr, cymunedau a sefydliadau cyhoeddus ar draws y rhanbarth.

Mae'n esiampl glir ac ymarferol o sut gall prosiectau cydweithredol lleol, buddsoddiad strategol ac arloesedd cymunedol ail-siapio dyfodol bwyd Cymru.



# Atodiad

## Crynodeb o Grantiau Bach a Grantiau Cydweithio Partneriaethau Bwyd Lleol 2025/26

Mae pob un o'r 22 o Bartneriaethau Bwyd Lleol yng Nghymru wedi derbyn cyllid drwy Strategaeth Bwyd Cymunedol Llywodraeth Cymru er mwyn darparu amrywiaeth o brosiectau bwyd wedi'u teilwra sy'n ymateb yn uniongyrchol i anghenion eu cymunedau.

Hyd yn hyn, mae 22 o brosiectau bach wedi derbyn grantiau o hyd at £22,500 i ddarparu arferion arloesol a meithrin capasiti Partneriaethau Bwyd Lleol mewn ardaloedd awdurdodau lleol ledled Cymru.

Yn ogystal â hynny, mae dau brosiect cydweithredol mwy hefyd wedi derbyn cyllid o hyd at £240,000 gyda nifer o Bartneriaethau Bwyd Lleol yn cydweithio i gyflawni blaenoriaethau rhanbarthol a nodwyd eisoes.

## Ceisiadau Llwyddiannus am Grantiau Bach Partneriaethau Bwyd Lleol 2025/26

*O.N. Mae'r tabl hwn yn amlinellu'r prosiectau Grantiau Bach.  Noder bod rhai ohonynt wedi esblygu yn ystod y flwyddyn. Mae amrywiad yng ngraddfa'r prosiectau a ddyfarnwyd, gan fod rhai partneriaethau bwyd wedi sicrhau cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill.*

| **Ardal Awdurdod Lleol** | **Crynodeb o'r Prosiect** |
|---|---|
| Abertawe | Mae Bwyd Abertawe yn ehangu'r ymgysylltiad â chymunedau incwm isel, ysgolion a ffermwyr. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau coginio a thyfu tymhorol, helpu ysgolion i dyfu ac ymweld â ffermydd, a datblygu perthnasoedd gyda chenhedlaeth newydd o ffermwyr. . |
| Blaenau Gwent | Mae Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent yn darparu rhaglen gynhwysfawr i gryfhau gwydnwch bwyd cymunedol, gan ddefnyddio'r dull Arian Parod yn Gyntaf a fframio gwaith drwy Ysgolion Bwyd. Mae'r rhaglen yn cynnwys system dalebau siopau lleol i gyflenwi cyrsiau sgiliau coginio, gwasanaethau parseli bwyd mewn argyfwng, a chyngor ar ddyledion. |
| Bro Morgannwg | Bydd Bwyd y Fro yn cefnogi tyfwyr lleol i ddarparu sesiynau 'Bwyd a Natur' mewn ysgolion ledled y Fro, gan feithrin dealltwriaeth disgyblion o fwyd cynaliadwy, lleol gan gryfhau cysylltiadau rhwng Bwyd y Fro, Cyngor y Fro, Ysgolion Iach, Ysgolion Eco, y Bartneriaeth Natur Leol, a thyfwyr lleol. |
| Caerdydd | Bydd Bwyd Caerdydd yn ehangu ei fynediad i fwyd iach a chynaliadwy drwy'r cynllun peilot Cerdyn y Blaned a chynllun 'talu ymlaen'. Bydd yn cysylltu â phartneriaid drwy ddigwyddiadau rhwydweithio a Chynhadledd Bwyd Da, tra bod ymgyrch ddigidol yn hyrwyddo mentrau bwyd da lleol. Bydd Strategaeth Bwyd Da Caerdydd wedi'i diwygio yn dechrau cael ei chyd-lunio drwy arolwg ledled y ddinas ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid. |

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

| Ardal Awdurdod Lleol | Crynodeb o’r Prosiect |
|---|---|
| Caerffili | Datblygu gweledigaeth glir a Siarter Fwyd i lywio twf y bartneriaeth yn y dyfodol, gwella cyrhaeddiad a chydweithio, ac ehangu’r ffocws ar draws yr holl system fwyd yng Nghaerffili. Mae hyn yn cynnwys gweithdai cyd-greu, digwyddiadau ymgysylltu, brecwastau busnes, a chyhoeddi Siarter Fwyd sy’n llunio’r seilwaith ar gyfer Strategaeth Fwyd yn y dyfodol. |
| Casnewydd | Mae Partneriaeth Bwyd Casnewydd yn darparu strwythur llywodraethu newydd, sy’n cynnwys sefydlu Grŵp Strategaeth Fwyd sy’n gyfrifol am lunio cynllun gweithredu ac is-grwpiau i ddarparu cymorth. |
| Castell-nedd Port Talbot | Mae Partneriaeth Bwyd Castell-nedd Port Talbot yn darparu cyfres o brosiectau i adeiladu ar fentrau presennol, gan gynnwys arolwg ysgolion a bwyd, ymgysylltu â ffermwyr a chynhyrchwyr, a rhaglen beilot coginio cymunedol, a chydweithio ehangach â phartneriaid yn y sector cyhoeddus. |
| Ceredigion | Mae Partneriaeth Bwyd Ceredigion yn cynnal prosiect penodol ar ehangu cynnyrch garddwriaethol bwytadwy yn y rhanbarth, gan gynnwys mapio’r ffrwythau a’r llysiau sy’n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd a rhai posibl, creu gweithgor o ffermwyr, a threfnu ymweliadau ysgol i ffermydd. |
| Conwy | Mae Partneriaeth Bwyd Conwy yn cryfhau ei sylfeini ac yn ehangu ei chyrhaeddiad drwy gynnal digwyddiadau, fforymau, a chynadleddau bwyd cymunedol; creu ymgyrch ymgysylltu wedi’i brandio; ac ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid drwy arolygon a gweithgareddau rhyngweithiol. |
| Gwynedd | Mae Partneriaeth Bwyd Gwynedd yn adeiladu ar fewnwelediadau o Adroddiad Newid Ymddygiad diweddar a hysbysodd y ffocws partneriaeth ar ddiffyg diogeled bwyd. Mae’r prosiect yn cynnwys darparu gweithgareddau haf sy’n canolbwyntio ar fwyd gyda mentrau cymunedol lleol a chyflenwyr bwyd, cryfhau cydweithredu ar draws sectorau drwy ddigwyddiadau rhwydweithio, a chefnogi tyfwyr lleol i drosglwyddo i ddulliau organig. |
| Merthyr Tudful | Mae Merthyr Tudful yn creu Strategaeth Tlodi Bwyd gyfredol i gynyddu mynediad at fwyd fforddiadwy, codi ymwybyddiaeth o opsiynau a gynhyrchir yn lleol a chynaliadwy, a manteisio i’r eithaf ar incwm drwy’r defnydd o gynlluniau bwyd. Mae datblygiad y strategaeth yn cynnwys asesiad llinell sylfaen, digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus a chyda rhanddeiliaid, a chynnal prosiectau peilot sy’n arwain at ganlyniadau cyflym. |

| Ardal Awdurdod Lleol | Crynodeb o'r Prosiect |
|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | Ymwreiddio arbenigedd deietegol iechyd cyhoeddus o fewn Partneriaeth Bwyd Pen-y-bont ar Ogwr i gefnogi arweinyddiaeth, cydgysylltu, ac uwchsgilio o fewn mentrau bwyd lleol. Mae hyn yn cynnwys darparu cwrs Lefel 2 Sgiliau Bwyd a Maeth Cymunedol a'r rhaglen Dechrau Coginio, cryfhau capasiti cymunedol, a gwella mynediad at fwyd lleol sy'n fforddiadwy ac iach. |
| Powys | Mae Bwyd Powys yn darparu rhaglen i annog mwy o bobl i fwyta bwyd lleol, cynaliadwy, ac iach sy'n cefnogi cymunedau a'r amgylchedd, gyda ffocws ar deuluoedd mewn lleoliadau Dechrau'n Deg. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys bocsys llysiau â chymhorthdal o ffermydd lleol, gwleddoedd cymunedol, a dosbarthiadau coginio. |
| Rhondda Cynon Taf | Mae Partneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf yn cynnal prosiect aml-elfen i gynyddu mynediad at fwyd iach, cynaliadwy. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys cynllun peilot ar gyfer marchnad ffermwyr ym Mhont-y-clun, sy'n cynnal gweithdai a digwyddiadau tyfu, a chynnal gwaith ymchwil ar ymddygiad mewn perthynas â dewisiadau defnyddwyr. |
| Sir Benfro | Mae Partneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro yn hwyluso ffurfio Rhwydwaith o Dyfwyr Cymunedol sy'n cysylltu tyfwyr cymunedol â busnesau lleol fel gwerthwyr llysiau a bwytai. Mae'r rhwydwaith hefyd yn cefnogi hyfforddiant mewn dulliau tyfu sy'n garedig i natur. |
| Sir Ddinbych | Cryfhau system fwyd Sir Ddinbych drwy gyfarfodydd bord gron lleol, micrograntiau dysgu gan gyfoedion, ymgysylltu â chyflenwyr bwyd, a meithrin mewnwelediad cydgysylltu a strategol cynhwysol ar gyfer gwydnwch yn y dyfodol. |
| Sir Fynwy | Mae Partneriaeth Bwyd Sir Fynwy yn cryfhau trefniadau llywodraethu a chysylltiadau cymunedol drwy ddigwyddiadau sy'n ymgysylltu â phreswylwyr a busnesau lleol, a thrwy gynllunio Cynhadledd Fwyd gyntaf Sir Fynwy. Bydd y bartneriaeth hefyd yn darparu dwy farchnad yn Nhrefynwy i hyrwyddo cydweithio rhwng cynhyrchwyr, busnesau, a'r gymuned ehangach. |
| Sir Gaerfyrddin | Mae Bwyd Sir Gâr yn cryfhau rhwydweithiau bwyd cymunedol drwy ariannu Swyddog Bwyd Cymunedol newydd i hyrwyddo ymgysylltiad cynhwysol, dysgu gan gyfoedion, a mynediad lleol at fwyd iach, cynaliadwy; er enghraifft, drwy wirfoddoli strwythuredig, ymgysylltiad, a chyfleoedd dysgu ar Fferm Sirol Bremenda Isaf. |
| Sir y Fflint | Mae Sir y Fflint yn cynnal cynllun peilot ar wasanaeth darparu blwch prydau sy'n addas ar gyfer teuluoedd i gefnogi'r seilwaith bwyd gwledig wrth fynd i'r afael â diffyg diogeledd bwyd drwy sicrhau mynediad at brydau poeth, maethlon. |

| Ardal Awdurdod Lleol | Crynodeb o'r Prosiect |
|---|---|
| Torfaen | Mae Partneriaeth Bwyd Torfaen yn darparu dau brosiect sy'n ategu ei gilydd sy'n hybu dewisiadau bwyd iachach, mwy cynaliadwy ar gyfer plant a theuluoedd. Mae'r cyntaf yn rhaglen blynyddoedd cynnar sy'n annog teuluoedd i archwilio, blasu, ac ymgysylltu â ffrwythau a llysiau; mae'r ail yn ymwneud â dadansoddi allyriadau carbon bwydlenni ysgol a chyflwyno logo "O Les i'r Blaned" |
| Wrecsam | Mae Partneriaeth Bwyd Wrecsam yn dechrau cael ei sefydlu'n llawn gyda chydlynydd i weithio ar draws y system fwyd leol, gan lunio cynllun gwaith sydd wedi'i lywio gan randdeiliaid, busnesau, a phreswylwyr. Mae hyn yn cynnwys gwaith ymchwil a mapio, digwyddiadau i randdeiliaid, a gweithdai cynllunio. |
| Ynys Môn | Cryfhau capasiti a threfniadau llywodraethu Partneriaeth Bwyd Ynys Môn, ochr yn ochr â mentrau penodol i gefnogi tyfwyr organig lleol, mynd i'r afael â thlodi bwyd, a darparu digwyddiadau ac astudiaethau achos ar draws sectorau. |

## Ceisiadau Llwyddiannus am Grantiau Cydweithio Partneriaethau Bwyd Lleol 2025/26

### Grant Cydweithio 1: Cadwyn gyflenwi llysiau lleol wedi'i chydlynu'n rhanbarthol yng Ngogledd Cymru

**Y Partneriaethau Bwyd Lleol sy'n Cymryd Rhan**

- **Partneriaeth Bwyd Ynys Môn (arweinydd)**
- Partneriaeth Bwyd COGOG (Sir Ddinbych)
- Partneriaeth Bwyd Conwy
- Partneriaeth Bwyd Gwynedd

**Nod y Prosiect**

Mae'r prosiect hwn yn anelu at greu cadwyn gyflenwi gadarn sydd wedi'i chydgysylltu'n rhanbarthol ar gyfer llysiau lleol ffres ac wedi'u rhewi i'w defnyddio ledled Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych, drwy sectorau arlwyo ysgolion, gofal a lletygarwch awdurdodau lleol ar draws y pedwar awdurdod lleol.

**Y Gweithgareddau Dan Sylw**

1. Buddsoddi mewn cyfarpar cyfalaf allweddol i wella'r capasiti prosesu a chynaeafu a reolir fel adnoddau a rennir neu lyfrgell cyfarpar.
2. Ymchwilio i ddatblygu model menter gymdeithasol i gydgysylltu'r gadwyn gyflenwi, rheoli logisteg, ac ail-fuddsoddi arian dros ben mewn mentrau bwyd cymunedol.
3. Darparu hyfforddiant a chymorth i staff arlwyo i reoli unrhyw amser paratoi ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynnyrch lleol ffres ac wedi'i rewi.
4. Hyrwyddo arferion garddwriaeth gynaliadwy ymysg y tyfwyr sy'n cymryd rhan, gan gynnwys cylchdroi cnydau, dulliau organig a lleihau'r effaith gemegol.

## Grant Cydweithio 2: Sicrhau gwydnwch bwyd yn rhanbarth Dyfed-Powys

**Y Partneriaethau Bwyd Lleol sy'n Cymryd Rhan**

- **Bwyd Powys (Arweinydd)**
- Bwyd Sir Gâr
- Partneriaeth Bwyd Ceredigion
- Partneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro

**Nod y Prosiect**

Diben y prosiect hwn yw dechrau datblygu strategaeth gwydnwch bwyd gynhwysfawr ac arloesol (y cyntaf yn y DU) ar gyfer ardal Dyfed Powys wrth ddarparu gweithgaredd i ddechrau mynd i'r afael â'r her hon ar lawr gwlad.

**Y Gweithgareddau Dan Sylw**

1. 'Labordy Arloesedd' i lunio damcaniaethau newid a ddatblygir yn lleol i adeiladu gwydnwch yn y system fwyd yn erbyn siociau. Mae'r dull cyfranogol hwn yn helpu i feithrin dealltwriaeth a rennir o'r system bresennol ar draws grwpiau ac actorion amrywiol, archwilio senarios posibl yn y dyfodol a chyd-ddylunio ymyriadau a llwybrau i gyflawni'r newid a ddymunir.
2. Astudiaeth cwmpasu ar wydnwch bwyd dinesig yng nghyd-destun ymyraethau byr, canolig, hir ac ysbeidiol sy'n amlygu meysydd blaenoriaeth – gan gynnwys galluogwyr allweddol, canllawiau deddfwriaethol, patrymau twf y boblogaeth dros 20 mlynedd, a Dadansoddiad Llwybr Critigol sy'n amlygu pwyntiau unigol o fethiant, ac argymhellion ar gyfer cynllunio effeithiol ar lefel teuluoedd, cymunedol a'r sector cyhoeddus ar gyfer meithrin gwydnwch o dan wahanol senarios.
3. Mapio asedau seilwaith critigol ar draws y pedwar sir gyda gwaith modelu ar sut y bydd hyn yn cael ei ddefnyddio o dan wahanol senarios.
4. Datblygu seilwaith gan gynnwys cylchoedd peirianwaith newydd ac wedi'u hehangu, datblygu mannau storio gyda'r tymheredd wedi'i reoli a thrawsnewid ysgubor mewn fferm sirol i ganiatáu ar gyfer cydgasglu cynnyrch a seilwaith prosesu a rennir sy'n cydymffurfio â rheolau iechyd a diogelwch.
5. Cynhadledd Diogelwch Bwyd i rannu'r canfyddiadau.

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales



**Am ragor o wybodaeth am y Partneriaethau Bwyd Lleol yng Nghymru ewch i** [www.synnwyrbwydcymru.org.uk](http://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)

**Am ragor o wybodaeth am y cynllun Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ewch i** [www.sustainablefoodplaces.org](http://www.sustainablefoodplaces.org)


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cardiff & Vale Health Charity
Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro

GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board